



Pŵer Hirwaun Cyfyngedig / Hirwaun Power Limited

Gorchymyn Hirwaun Power (Gorsaf Bŵer sy'n Rhedeg ar Nwy)

Hysbysiad o dan Adran 56 Deddf Gynllunio 2008 a Rheoliad 9 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig) 2009

Hysbysiad o dderbyn cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu i adeiladu, gweithredu a chynnal Prosiect Pŵer Hirwaun, Stad Ddiwydiannol Hirwaun, Aberdâr, Rhondda Cynon Taf, De Cymru

Cyfeirnod yr Arolygiaeth Gynllunio: EN010059

Y Cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu ar gyfer y Prosiect

- Rhoddir trwy hyn hysbysiad fod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd wedi derbyn cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu ("GCD") a wnaed gan Hirwaun Power Limited ("HPL") o 33, Cavendish Square, Llundain W1G 0PW o dan Ddeddf Gynllunio 2008 (y "Cais"). Cyflwynwyd y Cais i'r Ysgrifennydd Gwladol (drwy'r Arolygiaeth Gynllunio) ddydd Gwener, yr 21^{ain} o Fawrth 2014 ac fe'i derbyniwyd ar gyfer ei archwilio ddydd Mawrth, y 15^{ed} o Ebrill, 2014. Rhif y cyfeirnod a roddwyd i'r Cais gan yr Arolygiaeth Gynllunio, ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol, yw EN010059.
- Mae'r Cais yn ceisio caniatâd ar gyfer adeiladu, gweithredu a chynnal gorsaf gynhyrchu thermol newydd sy'n rhedeg ar nwy o hyd at 299 megawat a chysylltiadau trydanol a nwy integrol ar dir yn Stad Ddiwydiannol Hirwaun, ger Aberdâr, De Cymru ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y "Prosiect").
- Mae'r Prosiect yn cynnwys yr elfennau a ganlyn sy'n ffurfio'r prosiect seilwaith cenedlaethol ei arwyddocâd ac mae'r cyfan yn annatod i'r naill a'r llall:
 - Y Gwaith Cynhyrchu Pŵer - gwaith cynhyrchu pŵer 'brigo' sy'n rhedeg ar nwy tyrbîn nwy cylch syml. Er mwyn cynhyrchu hyd at 299 megawat trydanol, byddai rhwng 1 a 5 generadur tyrbîn nwy yn cael eu defnyddio, a phob un â'i simnai fflw allyrru ei hun fyddai rhwng 30 metr a 35 metr o uchder. Byddai'r Gwaith Cynhyrchu Pŵer yn cynnwys y generaduron tyrbîn nwy; ardal fancio; gweithfa derbyn nwy; generadur *black start* (dull annibynnol o gynhyrchu pŵer yn y gwaith); tanciau dŵr; ac adeiladau, strwythurau a chyfarpar atodol.
 - Y Cysylltiad Trydanol - cysylltiad cebl trydanol tanddaearol newydd i drosglwyddo trydan o'r Gwaith Cynhyrchu Pŵer i mewn i'r System Trawsyrro Trydan Genedlaethol yn Is-orsaf Y Rhigos. Byddai hyn wedi'i ffurfio o gebl, wedi'i osod o fewn ffordd a / neu bafin Main Avenue a Fourteenth Avenue o'r Gwaith Cynhyrchu Pŵer i Is-orsaf Y Rhigos.
 - Y Cysylltiad Nwy - cysylltiad piblinell nwy tanddaearol newydd i ddod â nwy naturiol i'r Gwaith Cynhyrchu Pŵer o'r rhwydwaith nwy gwasgedd uchel presennol, y System Drawsyrru Genedlaethol. Byddai'r Cysylltiad Nwy yn cynnwys Gweithfa ar y Tir wedi'i ffurfio o Gyfleuster Trapio Medrydd Archwilio Piblinellau ("PIG") ochr yn ochr â Chysylltiad Defnydd Angenrheidiol Lleiaf, a byddai piblinell nwy oddeutu 849 metr wedi'i gosod i'r weithfa derbyn nwy yn y Gwaith Cynhyrchu Pŵer.
- Bydd y GCD, os rhoddir, yn awdurdodi adeiladu, gweithredu a chynnal y Prosiect, a byddai, ymysg pethau eraill, yn gwneud darpariaeth ar gyfer y canlynol:
 - Gwaredu coed a gwrychoedd ar hyd llwybrau'r Cysylltiad Trydanol a'r Cysylltiad Nwy.
 - Ailblannu a phlannu cydadferol, tirlunio a lliniaru ecolegol.
 - Cau llwybrau cyhoeddus dros dro yn ystod y gwaith adeiladu a ddisgrifir uchod.
 - Creu tri mynediad parhaol newydd oddi wrth rwydwaith y briffordd ar gyfer y Prosiect, cyfaddasu mynediadau presennol a chreu mynediadau dros dro eraill ynghyd â chau lonydd dros dro a gwneud gwaith dros dro ar strydoedd.
 - Caffael gorfodol parhaol a thros dro ar dir a hawliau mewn tir ar gyfer y Prosiect.
 - Bod yn drech na hawddfrentiau a hawliau eraill ar, neu sy'n effeithio ar, dir ar gyfer y Prosiect
 - Cymhwyso a / neu ddatgymhwyso deddfwriaeth sy'n berthnasol i'r Prosiect.
 - Y cyfryw weithiau ategol, achlysurol a chanlyniadol (yn cynnwys dymchwel), darpariaethau, trwyddedau, caniatâd, hawliadau neu ryddhad fel sy'n angenrheidiol a / neu sy'n gyfleus er mwyn adeiladu, gweithredu a chynnal y Prosiect yn llwyddiannus.
- Oherwydd ei natur a'i faint, mae'r Prosiect wedi'i gategoreiddio fel datblygiad Asesu Effeithiau Amgylcheddol (AEA) o dan Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2009. Mae yna Ddatganiad Amgylcheddol yn mynd law yn llaw â'r Cais.
- Mae copi o'r Ffurflen Gais a'i dogfennau, ei chynlluniau a'i mapiau cysylltiedig (yn cynnwys y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft a'r Datganiad Amgylcheddol) ar gael tan ddydd Iau, y 29^{ain} o Fai, 2014 ar gyfer eu harchwilio yn ddi-dâl yn y llyfrgelloedd a ganlyn (mae amseroedd agor yn amrywio):

Llyfrgell Hirwaun Stryd Fawr Hirwaun CF44 9SW (01685) 811144	Agored: Llun ac Iau 9.30yb-1yp & 2-5yp; Mawrth a Gwener 9.30yb-1yp & 2-6yp; Mercher a Sadwrn 9.30yb-1yp; Ynghau: Suliau a gwyliau'r banc.
Llyfrgell Aberdâr Green Street Aberdâr CF44 7AG (01685) 880050	Agored: dyddiau'r wythnos waith 9yb-6yp; Sadwrnau 9yb-1yp; Ynghau: Suliau a gwyliau'r banc.
Llyfrgell Ganolog Merthyr Tudful Stryd Fawr Merthyr Tudful CF47 8AF (01685) 353480	Agored: dyddiau'r wythnos waith: 8:30yb i 6yp; Sadwrnau 8:30yb i 2yp; Ynghau: Suliau a gwyliau'r banc.

- Bydd y dogfennau hefyd ar gael tan ddydd Iau, y 29^{ain} o Fai, 2014 ar gyfer eu harchwilio yn ddi-dâl ym mhrif swyddfa Adran Gynllunio Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn Nhŷ Sardis, Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU.
- Mae'r Ffurflen Gais a'i dogfennau, ei chynlluniau a'i mapiau cysylltiedig hefyd ar gael i'w gweld ar-lein drwy wefan yr Arolygiaeth Gynllunio: <http://infrastructure.planningportal.gov.uk/projects/wales/hirwaun-power-station/>
- Gellir codi tâl rhesymol am gopïo, hyd at uchafswm o £1000 am y gyfres lawn o ddogfennau, ac £20 am gopi electronig ar CD-ROM. Mae copïau o ddogfennau unigol hefyd ar gael ar gais. Gellir cael y dogfennau drwy gysylltu â'r Ymgeisydd drwy'r manylion a ganlyn: **Freepost RTEY-JYYB-ERSR Hirwaun Power Limited, 49 York Place, Edinburgh / Caeredin, EH1 3JD, neu info@hirwaunpower.co.uk**

Gwneud sylwadau am y Prosiect

- Mae'n rhaid i unrhyw sylwadau (yn rhoi hysbysiad o unrhyw fuddiant yn neu wrthwynebiad i'r Cais) gael eu gwneud ar Ffurflen 'Cofrestru a Sylwadau Perthnasol' yr Arolygiaeth Gynllunio, y gellir ei chael a'i chwblhau ar-lein drwy ddilyn y ddolen berthnasol a ganlyn: <http://infrastructure.planningportal.gov.uk/projects/wales/hirwaun-power-station/>.
- Os hoffech ofyn am gopi caled o Ffurflen 'Cofrestru a Sylwadau Perthnasol' yr Arolygiaeth Gynllunio, ffoniwch 0303 444 5000, os gwelwch yn dda. Dylid wedyn anfon ffurflenni wedi'u cwblhau at: The Planning Inspectorate, National Infrastructure Directorate, Temple Quay House, Temple Quay, Bristol / Bryste BS1 6PN. Dylid nodi rhif cyfeirnod yr Arolygiaeth Gynllunio ar gyfer y Cais (EN010059) mewn unrhyw ohebiaeth.
- Mae 'Nodyn Cyngor 8.3 yr Arolygiaeth Gynllunio: Sut mae cofrestru a bod yn barti â buddiant mewn cais' (Ebrill 2012) yn darparu rhagor o arweiniad ar sut i gofrestru ac i wneud sylwadau perthnasol, a gellir ei gyrchu drwy ddilyn y ddolen a ganlyn: <http://infrastructure.planningportal.gov.uk/legislation-and-advice/advice-notes>.
- Nodwch, os gwelwch yn dda, fod yn rhaid derbyn sylwadau gan yr Arolygiaeth Gynllunio erbyn 5.00pm ddydd Iau, y 29^{ain} o Fai, 2014. Bydd sylwadau yn cael eu gwneud yn gyhoeddus gan yr Arolygiaeth Gynllunio.